**Cofnod Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 422**
**15 Tachwedd, 2018, Canolfan S4C Yr Egin, Caerfyrddin**

| | | |
|---|---|---|
| **Presennol:** | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | Hugh Hesketh Evans | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Owen Derbyshire | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Rhodri Williams | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Staff S4C:** | Owen Evans | (Prif Weithredwr) |
| | Gwyn Williams | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol) |
| | Amanda Rees | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| | Bethan C. Williams | (Cynorthwy-ydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Huw Jones | (Uwch Swyddog Ystadegol) – eitem 7 |
| | Arwyn Rawson Thomas | (Pennaeth Cynllunio) – eitem 7 |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| | Siân Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |

## COFNODION

### MATERION SEFYDLOG:

1. **Croeso a Datganiadau Diddordeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod cyntaf y Bwrdd Unedol Cysgodol.

Gofynnwyd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb.

*Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran Bwrdd yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.*

2. **Cofnodion Cyfarfod Bwrdd rhif 421 a gynhaliwyd ar Hydref 25ain 2018**

2. Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 421 Bwrdd yr Awdurdod a gynhaliwyd ar Hydref 25ain.

Cymeradwywyd y cofnodion gan y Bwrdd.

3. **Materion yn codi o gofnodion Cyfarfod 421**

**Bwrdd Unedol Cysgodol**

Holwyd am ddiweddariad parthed gweithredu trefniadau'r Bwrdd Unedol Cysgodol. Esboniwyd fod y Bwrdd wedi cymeradwyo'r Rheolau Sefydlog diwygiedig a'r bwriad i weithredu fel Bwrdd Unedol Cysgodol o'r cyfarfod hwn.

Roedd diweddariad wedi ei gyflwyno i DCMS, ac roedd DCMS wedi holi am wersi a ddysgwyd wrth lunio'r drefn er mwyn sicrhau fod unrhyw gais am ddeddfwriaeth yn ystyried y broses hyd yma. Roedd S4C wedi nodi y dylid trafod cwmpas yr holl ddarpariaethau statudol presennol a fydd angen eu diwygio mewn mesur maes o law.

O ran aelodaeth y Bwrdd Unedol Cysgodol, roedd y Prif Weithredwr yn Aelod Gweithredol o'r Bwrdd yn unol â darpariaethau'r Rheolau. Roedd y Rheolau hefyd yn rhoi'r hawl i'r Bwrdd benodi hyd at ddau aelod gweithredol arall i weithredu fel cyfarwyddwyr gweithredol yn dilyn argymhelliad o'r Pwyllgor Archwilio a Materion eraill. Nodwyd fod cyfarfod nesaf y pwyllgor wedi ei ail-drefnu ar gyfer 12 Rhagfyr.

Nodwyd yr angen o ran llywodraethiant corfforaethol i sicrhau proses ffurfiol ar gyfer enwebu a phenodi aelodau gweithredol yn unol â'r Rheolau. Awgrymwyd y gallai'r Bwrdd ystyried argymhelliad o ran penodi aelodau gweithredol i'r Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill, drwy gyfrwng e-bost neu Skype yn hytrach nac aros nes

cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor, a nodwyd fod y Rheolau Sefydlog yn caniatáu i'r Bwrdd a'i bwyllgorau gynnal eu busnes trwy gyfryngau elegtroneg.

Penderfynwyd er mwyn peidio aros tan gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill ym mis Rhagfyr, y dylai'r Prif Weithredwr gyflwyno'i argymhelliad o ran penodi aelodau gweithredol i'r Bwrdd Unedol Cysgodol i Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Materion eraill trwy gyfrwng e-bost, ac yna i'r Pwyllgor ystyried yr argymhelliad cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd ar gyfer ei ystyriaeth.

Nododd PW fod cynllun ar waith yng nghyd-destun gwefan S4C i sicrhau fod unrhyw gyfeiriad at yr Awdurdod yn cael ei newid i gyfeirio at y Bwrdd Unedol. Penderfynwyd y byddai PW ac EM yn trafod pa newidiadau oedd eu hangen i adlewyrchu enw newydd y Bwrdd mewn dogfennau eraill gan gynnwys cytundebau S4C.

4. **Pwyntiau Gweithredu**

Cyflwynwyd y Pwyntiau Gweithredu er gwybodaeth, a chyfeiriwyd yn benodol at y pwyntiau canlynol.

**Hwb Digidol**

Cyfeiriwyd at bwynt gweithredu Ebrill 2018 parthed cynlluniau'r Hwb Digidol, a holwyd pa gynnydd oedd wedi ei wneud o ran sefydlu'r Hwb yn yr Egin. Esboniwyd y byddai cyfle i drafod datblygiadau digidol ym mis Rhagfyr. Roedd y cynlluniau digidol yn parhau i ddatblygu, gyda Ruth Meadows yn gyfrifol am arwain ar faterion isadeiledd a Rhodri ap Dyfrig yn gyfrifol am gomisiynu cynnwys ar gyfer llwyfannau digidol.

Roedd cynllun yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cynnwys lansio box-sets cyn y Nadolig, ac yna cofrestru dewisol, gyda chynllun cofrestru gorfodol i ddilyn yn y flwyddyn newydd.

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Trefniadau Llywodraethiant y Bwrdd Masnachol, gan gynnwys canllawiau ar gyfer buddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu**

Cyflwynodd EM broses ddiwygiedig mewn perthynas â threfniadau llywodraethiant, ynghyd â chanllawiau, ar gyfer galluogi buddsoddi gan S4C Masnachol mewn cwmnïau cynhyrchu.

Cafwyd trafodaeth am sut y byddai'r cynllun yn cael ei weithredu, a holwyd sut y byddai modd sicrhau fod protocol clir yn cael ei sefydlu a fyddai'n osgoi unrhyw wrthdaro mewn perthynas â chomisiwn neu gynnwys a buddsoddiad gan yr adain fasnachol. Roedd elfen o bryder y gallai'r Prif Weithredwr neu'r Cyfarwyddwr Cynnwys ddylanwadu ar benderfyniadau buddsoddi o dan y drefn arfaethedig. Esboniwyd y byddai'n rhaid i'r Bwrdd Unedol gymeradwyo unrhyw benderfyniad i fuddsoddi, ac felly na fyddai modd i Brif Weithredwr neu Gyfarwyddwr Cynnwys gael dylanwad amhriodol ar y broses.

Holwyd a oedd OE wedi trafod y bwriad i fuddsoddi mewn cwmnïau cynhyrchu gyda'r sector. Esboniodd ei fod wedi trafod y bwriad gyda chynrychiolwyr TAC a'u bod yn gyfforddus gyda'r syniad.

**Penderfynwyd y byddai AG ac EM yn trafod opsiynau ar gyfer sicrhau ffiniau clir rhwng buddiannau'r cronfeydd cyhoeddus a masnachol yn y protocol buddsoddi cyn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Bwrdd.**

**Archifo a phartneriaeth gyda'r Llyfrgell Genedlaethol**

Cyflwynodd OE ddiweddariad ar y trafodaethau gyda'r Llyfrgell Genedlaethol parthed opsiynau ar gyfer archifo deunydd S4C.

Penderfynwyd y dylid darparu adroddiad cynnydd pellach i'r Bwrdd pan fydd gwybodaeth bellach ar gael.

**Cytundeb Golygyddol gyda'r BBC**
Nodwyd fod sylwadau ar y cytundeb drafft wedi eu cyflwyno i'r BBC, ac roedd cyfarfod wedi ei drefnu er mwyn trafod y sylwadau.

**Cyfleu rhaglenni'n hwyr**
Cyfeiriwyd at adroddiad ysgrifenedig OE, a nodwyd fod gwaith yn parhau o ran ceisio datrys problem rhaglenni'n cael eu cyfleu'n hwyr.

**Adleoli – Adroddiad Cynnydd**
Roedd OE yn y broses o baratoi adroddiad cynnydd ar gyfer y Prosiect Adleoli.

**Cyflwynir adroddiad cloi'r Prosiect Adleoli i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr ym mis Ionawr.**

6. **Adroddiad y Cadeirydd**
Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad, a chyfeiriodd yn benodol at y materion canlynol.

**Materion strwythurol yr Adolygiad**

**MOU arfaethedig gydag Ofcom**
Roedd Ofcom Cymru wedi derbyn copi o'r MOU drafft ar gyfer eu hystyriaeth ym mis Hydref ac wedi ymateb ar lafar yn gadarnhaol i S4C. Roeddynt bellach yn trafod y ddogfen gyda chydweithwyr yn Llundain.

**Trefniadau Archwilio.**
Cyflwynir rhaglen waith Archwilio Mewnol newydd PWC i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Materion Eraill yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr.

**Agoriad Swyddogol pencadlys S4C yn yr Egin**
Cyfeiriodd y Cadeirydd at agoriad swyddogol pencadlys S4C yn yr Egin a nodwyd fod yr achlysur wedi bod yn llwyddiant. Roedd yn braf cael croesawu'r Ysgrifennydd Gwladol, Jeremy Wright i'r Egin ar ei ymweliad swyddogol cyntaf i Gymru, ynghyd â'r Arglwydd Bourne a oedd yn cynrychioli Swyddfa Cymru. Yn dilyn yr agoriad, cafwyd cyfarfod rhwng yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Bourne a chynrychiolwyr TAC ac S4C.

**Aelodaeth y Bwrdd**
Adroddodd y Cadeirydd fod y DCMS wedi cysylltu i roi gwybod fod bwriad i benodi dau aelod newydd anweithredol o'r Bwrdd Unedol yr un pryd â phenodi Cadeirydd newydd.

**Nosweithiau Gwylwyr**
Cyfeiriodd y Cadeirydd at y nosweithiau gwylwyr a oedd wedi eu cynnal yn ddiweddar, a nodwyd fod oddeutu 70 o wylwyr wedi mynychu'r noson yn Y Trallwng neithiwr.
Bydd cofnodion o'r nosweithiau'n cael eu dosbarthu maes o law.

Cafwyd trafodaeth am werth a phwrpas nosweithiau gwylwyr, a nodwyd fod y cyfarfodydd hyn yn werthfawr gan eu bod yn rhoi cyfle i wylwyr fynegi'u barn ac i S4C glywed barn y gynulleidfa a gweld os oes patrymau tebyg, neu bwyntiau penodol yn cael eu codi, a bod gwerth PR iddynt yn ogystal. Nodwyd nad eu pwrpas oedd disodli gwaith ymchwil ffurfiol.

**TAC**
Croesawodd y Cadeirydd aelodau Cyngor TAC i'r cyfarfod, a chafwyd trafodaeth am nifer o faterion perthnasol.

**Hwb Digidol**
Cyflwynodd OE ddiweddariad parthed cynlluniau digidol S4C, gan esbonio fod y Gwaith wedi ei rannu rhwng prosiect is-adeiledd digidol a chynnwys digidol.

Roedd y gwaith Isadeiledd yn canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg er mwyn deall mwy am farn y gynulleidfa a chyfathrebu'n well gyda nhw. Roedd tîm newydd wedi ei greu a fyddai'n cyfuno gwaith cyfryngau cymdeithasol, datblygiadau Clic, a dadansoddi digidol,

mewn un tîm. Roedd gwaith datblygu a chomisiynu cynnwys yn parhau mewn tîm ar wahân.

Holwyd a oedd yr opsiwn i gynhyrchu cynnwys digidol o fewn S4C yn parhau i fod dan ystyriaeth. Esboniodd OE fod yr opsiwn yn parhau i fod dan ystyriaeth, ond oherwydd y twf calonogol sydd wedi bod mewn cwmniau sy'n datblygu'r gallu i gynhyrchu cynnwys ar gyfer llwyfannau digidol, nad oedd cynlluniau ar hyn o bryd i gynhyrchu cynnwys yn fewnol.

7. **Cynnwys a Pherfformiad y Gwasanaeth**

Cyflwynodd AR grynodeb o'r strategaeth cynnwys wreiddiol ac adolygiad o'r strategaeth a pherfformiad y gwasanaeth a chafwyd trafodaeth am berfformiad y gwasanaeth.

Newidiadau i'r Amserlen / Symud Newyddion
Penderfynwyd darparu papurau cefndirol i'r Bwrdd cyn y Diwrnod i Ffwrdd i gynnwys gwybodaeth am (i) ddosraniad arian o fewn yr amserlen, (ii) opsiynau ar gyfer hyrwyddo yn y dyfodol, ac (iii) asesiad o berfformiad y gwasanaethau digidol a'r berthynas gyda pherfformiad y gwasanaeth teledu.

Penderfynwyd darparu gwybodaeth ddemograffeg i'r Bwrdd fyddai'n rhoi gwybodaeth gefndirol am y gynulleidfa a phoblogaeth Cymru.

Penderfynwyd y dylid parhau i weithio ar opsiynau ar gyfer amserlen ddiwygiedig, gan gynnwys y posibilrwydd o symud Newyddion, ac i gyflwyno gwybodaeth bellach, ynghyd ag argymhelliad i'r Bwrdd ar gyfer ystyriaeth yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2019.

Nodwyd hefyd yr angen i ystyried sut o dan drefn y Bwrdd Unedol y gellid craffu gwariant y £67m ar lefel strategol, heb ymyrryd mewn penderfyniadau amserlennu a chomisiynu.

8. **Rhaglenni'r mis aeth heibio**
Cafwyd trafodaeth am nifer o raglenni a ddarlledwyd yn ystod y mis aeth heibio.

9. **Adroddiad Gwifren Gwylwyr a Chwynion a Chydymffurfiaeth**
Cyflwynwyd adroddiad Gwifren Gwylwyr er gwybodaeth.

10. **Rhaglen Waith**
Cyflwynwyd Rhaglen Waith y Bwrdd ar gyfer 2018-19 er gwybodaeth.

11. **Unrhyw Fater Arall**
Ni thrafodwyd unrhyw faterion eraill.